

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mehefin 9fed 2015 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Gwynedd Jones (is-gadeirydd), Rhys Richards, Geraint Jones, Gwilym Davies, Euros Puw, Gwynfryn Williams a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Arwel Davies, Geraint Davies, Jean Roberts a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Geraint a Rachael Davies, Fedw Arian Uchaf ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth 'Silver Lapwing', FWAG yn ddiweddar.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Diweddarau'r Aseiad Risg.

Trafodwyd y newidiadau i'r aseiad risg a chytunwyd i'w cymeradwyo.

Llythyr o ddiolch.

Derbyniwyd llythyr yn diolch am y cyfraniad ariannol gan Glwb Ffermwyr Ifanc Maesywaen. Gofynnwyd i'r clerc yrru llythyr yn nol yn eu llongyfarch ar eu llwyddiant yn y Rali yng Ngwernfeistol ym mis Mai.

Cyfarfod Her Gwynedd.

Cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd gan y clerc a Gwynfryn Williams a fynychodd y cyfarfod ar ran y Cyngor.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Gyngor Gwynedd.

Safle Biniâu ger Pant Neuadd, Parc.

Cafwyd adroddiad gan y clerc o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod gyda'r trigolion lleol a swyddogion Cyngor Gwynedd. Yn dilyn y cyfarfod derbyniwyd e-bost yn cadarnhau cynnig Cyngor Gwynedd i ail leoli'r man casglu gerllaw'r lloches bus ar gyrion y pentref. Cytunwyd gyda'r cynnig a gofynnwyd i'r clerc gynghori'r swyddogion o leoliad y ffos ger y lloches gan ei bod yn gallu tagu yn ystod y gaeaf.

Arwyddion blaenoriaeth ar bont Ffrydan-uchaf ger Fedw Arian.

Cafwyd adroddiad gan y clerc o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod gyda swyddog Cyngor Gwynedd. Gan nad oedd y safle yn cyfarfod y gofynion ar gyfer cael arwyddion blaenoriaeth traffig roedd Cyngor Gwynedd yn barod i osod arwyddion yn nodi bod y ffordd yn culhau a pheintio arwyddion SLOW/ARAF ar y ffordd bob ochr i'r bont.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn/ Pum Plwy Penllyn

i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

b) Cyngor Gwynedd

i) Iechyd a Gofal yng Ngwynedd - Adran Oedolion Iechyd a Llesiant - gwybodaeth am y cynllun i edrych ar wasanaethau cymdeithasol ac iechyd a'r plethiad rhwng y gwasanaethau,

c) Amrywiol

i) Grŵp Cynefin – Derbyniwyd gwybodaeth am eu 'Grant Datblygu Cymunedol'.

ii) Heddlu Gogledd Cymru – gwybodaeth am eu hymgyrch diweddaraf i recriwtio gwirfoddolwyr.

Materion Ariannol.

Ffurflen Archwiliad Blynyddol.

Adroddodd y clerc bod y cyfrifon a'r ffurflen wedi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol.

Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiad sicrwydd yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y clerc y byddai'n anfon copi o'r ffurflen i'r archwilwyr mewnol, UHY Hacker Young.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) TGTHE (TWE)

Rheolydd Pensiynau.

Derbyniwyd llythyr yn egluro dyletswyddau cyfreithiol newydd y Cyngor yn ymwneud a chofrestru staff ar gyfer cynllun pensiwn. Gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau pellach i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio a'u dyletswyddau.

Derbyniwyd cais ariannol gan Dŷ Gobaith. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Materion Lleol.

Gwrych ger cyffordd Wern Goch, Parc.

Derbyniwyd cwynion bod gwrych ger y gyffordd yn amharu ar welededd gyrwyr a oedd yn defnyddio'r gyffordd. Gan fod y safle ym mhlwy Llanuwchllyn gofynnwyd i'r clerc basio'r sylwadau ymlaen iddynt.